

# PWYLLGOR SAFONAU

24 Chwefror 2021

Yn Bresennol: Mr John Daniels (Cadeirydd)  
Mr P Davies, Cyngorydd R Owens, Cyngorydd P Morgan, Dr R  
Plummer, Ms W Taylor a Mrs V Tomlinson.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 10.25am)

## 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

## 2. Ethol Dirprwy Gadeirydd

**PENDERFYNWYD** penodi Mrs V Tomlinson yn Ddirprwy Gadeirydd am gyfnod ei thymor yn y swydd sef tan yr 22<sup>ain</sup> o Fedi 2024.

## 3. Datgan Buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 4. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 22<sup>ain</sup> o Orffennaf 2020 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 22<sup>ain</sup> o Orffennaf 2020.

## 5. Adroddiad Blynyddol y Swyddog Monitro 2020/21

Dechreuodd yr adroddiad drwy amlinellu cylch gorchwyl y Pwyllgor, a nodwyd yn y cyfarfod bod gwall argraffyddol ym mharagraff (d) ddylai fod wedi cyfeirio at Adran 71 (2) (b). Aeth yr adroddiad rhagddo i sôn bod yr Awdurdod wedi parhau i gynnal ei gyfarfodydd yn rhithiol yn ystod y llynedd, fel y caniateir gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020. Byddai'r Rheoliadau hyn yn peidio â bod mewn grym ar 30 Ebrill 2021. Fodd bynnag, gallai'r Swyddog Monitro gadarnhau y gallai cyfarfodydd barhau i gael eu cynnal yn rhithiol gan fod y ddarpariaeth hon wedi'i chynnwys yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 oedd wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021.

Aeth yr adroddiad ymlaen i amlinellu'r hyfforddiant a ddarparwyd gan y Swyddog Monitro yn ystod y flwyddyn, a chyfeiriwyd hefyd at nifer o gwynion yr oedd wedi ymchwilio iddynt. Roedd dau o'r achwynwyr yn anfodlon â'r ymateb ac wedi trosglwyddo eu cwynion i'r Ombwdsmon oedd heb ddod o hyd i unrhyw dystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad na diffygion yn y modd yr oedd y cyfarfodydd wedi'u cynnal, ac felly nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach.



Nodwyd na fu unrhyw atgyfeiriadau gan yr Ombwdsmon i gychwyn ymchwiliad gan y Pwyllgor Safonau i achos posibl o dorri'r Cod Ymddygiad, nad oedd unrhyw gwyn Aelod i Aelod wedi'i dderbyn ac nad oedd unrhyw geisiadau am oddefeb wedi'i wneud gan Aelodau'r Awdurdod. Byddai hyfforddiant i'r Pwyllgor ar ddelio â cheisiadau am oddefeb yn cael ei gynnal yn dilyn y cyfarfod.

Dywedodd y Swyddog Monitro ei bod yn bosibl y byddai'r Cod Ymddygiad yn cael ei adolygu yn y flwyddyn sydd i ddod, yn dilyn adolygiad yn Lloegr, ac os felly byddai hyfforddiant pellach yn cael ei drefnu.

Daeth yr adroddiad i ben drwy dynnu sylw at Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon a'r coflyfrau chwarterol er gwybodaeth a diddordeb yr Aelodau. Nodwyd bod y mwyafrif o'r cwynion yn ymwneud â thorri'r Cod Ymddygiad oedd yn ymwneud â Chynghorau Tref a Chymuned ac yn benodol ymddygiad eu cynghorwyr. Pleser oedd nodi na fu unrhyw gwynion oedd yn ymwneud ag Aelodau o'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn y cyfnod 2019/20 o'r adroddiad.

Dywedodd un Aelod ei fod yn mynychu nifer o gyfarfodydd Cynghorau Cymuned, ac o'r farn eu bod ar y cyfan yn gwneud gwaith rhagorol, yn enwedig gan nad oedd ganddynt unrhyw gymorth proffesiynol. Gan ddiolch i'r swyddog am adroddiad cynhwysfawr, gofynnodd Aelod arall a oedd gan yr Aelodau unrhyw beth i'w ddysgu o'r cwynion a wnaed. Atebodd y Swyddog Monitro bod y cwynion wedi'u gwrthod ac felly nad oedd fawr ddim i'w ddysgu. Serch hynny, cytunodd i ystyried y ffordd orau o rannu unrhyw bwyntiau perthnasol, a sicrhau bod y rhain wedi'u cynnwys mewn rhaglenni sefydlu yn y dyfodol.

**NODWYD.**

